OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES

# Adroddiad Arbennig a gyhoeddwyd o dan a28 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 yn dilyn cwyn a wnaed gan Mr N yn erbyn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Adroddiad gan yr
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Achos: 202104092

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Crynodeb | 2 |
| Fy awdurdodaeth | 4 |
| Y Cefndir | 4 |
| Gweithredu’r Argymhellion/Setliad | 7 |
| Sylwadau’r APC ar fersiwn drafft o’r adroddiad hwn | 10 |
| Sylwadau Mr N ar fersiwn drafft o’r adroddiad hwn | 11 |
| Dadansoddiad a Chasgliadau | 11 |
| Argymhellion Pellach | 13 |

## Cyflwyniad

Cyhoeddir yr adroddiad hwn o dan a28 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 ("y Ddeddf") .

Yn unol â darpariaethau'r Ddeddf, mae'r adroddiad yn ddienw er mwyn sicrhau, hyd y bo modd, bod unrhyw fanylion a allai olygu bod modd adnabod unigolion wedi cael eu newid neu eu hepgor.  Mae'r adroddiad felly yn cyfeirio at yr achwynydd fel Mr N.

## Crynodeb


Yn 2019, cwynodd Mr N i'r Ombwdsmon am oedi gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ("yr APC") yn ei ymateb i'w gŵyn, a oedd wedi cymryd bron i 3½ blynedd i benderfynu arno, a'r camau a gymerwyd gan yr APC i weithredu'r argymhellion yn adroddiad y Swyddog Monitro ar yr ymchwiliad i'r gŵyn.  Roedd y rhain yn cynnwys gwneud gwaith i arwynebu trac a symud/disodli grid gwartheg, yn ogystal â ffensio ar dir comin (a oedd angen caniatâd Llywodraeth Cymru).  Cadarnhaodd yr Ombwdsmon gŵyn Mr N, ac yn yr adroddiad dilynol ar 16 Medi 2019 gwnaeth nifer o argymhellion gyda'r bwriad o sicrhau bod y camau gweithredu'n cael eu cwblhau "cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol", y cytunodd yr APC i'w rhoi ar waith.

Ym mis Medi 2021, cwynodd Mr N i'r Ombwdsmon eto am y diffyg cynnydd.  Setlwyd y gŵyn ar y sail bod yr APC wedi cytuno i gwblhau'r gwaith ar y traciau a'r grid gwartheg erbyn diwedd mis Mawrth 2022, a chwblhau'r ffensio o fewn 3 mis i ganiatâd Llywodraeth Cymru ar gyfer y gwaith.  Erbyn diwedd mis Hydref 2022, er bod gwaith wedi'i wneud, nid oedd wedi'i gwblhau, ac roedd y cais i Lywodraeth Cymru wedi "dod i ben" ac roedd angen ail-gyflwyno.

Gan ei bod yn anfodlon nad oedd yr APC wedi cydymffurfio ag argymhellion adroddiad 2019 na thelerau'r setliad, defnyddiodd yr Ombwdsmon ei phwerau o dan adran 28 i gyhoeddi Adroddiad Arbennig. Er bod yr Ombwdsmon yn deall bod yr APC ar adegau wedi'i gael ei hun mewn sefyllfa anodd, caniatawyd i'r sefyllfa fynd yn ddifater am lawer rhy hir ac roedd yn gwbl annerbyniol nad oedd y mater wedi dod i ben. Argymhellodd y dylai'r APC, o fewn 1 mis:

a) Anfon ymddiheuriad ysgrifenedig i Mr N gan y Prif Weithredwr am y ffordd y mae'r APC wedi ymdrin â'r mater hwn.

b) Talu swm o £1000 i Mr N i gydnabod yr amser a'r drafferth y mae wedi'i roi iddynt wrth fynd ar drywydd ei gŵyn.

Argymhellodd yr Ombwdsmon hefyd y dylai’r APC:

c) Gyflymu’r gwaith sydd wedi’i gynnwys yn y tendr (adeiladu’r trac ac ail-leoli’r grid gwartheg) fel mater o frys. Dylid cwblhau gwaith o’r fath cyn gynted â phosibl, ac erbyn **diwedd mis Mawrth 2023** fan bellaf.

d) Gwneud popeth o fewn ei allu i gyflymu penderfyniad Llywodraeth Cymru ar y cais am ganiatâd tir comin; dylai’r ffens gael ei chwblhau o fewn 3 mis i Lywodraeth Cymru roi caniatâd ar gyfer y gwaith.

e) Adrodd yr adroddiad hwn yn ffurfiol i gyfarfod nesaf Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu’r APC. Wedi hynny, dylai'r mater fod yn eitem sefydlog ar agenda'r Pwyllgor hwnnw hyd nes y bydd y Pwyllgor yn fodlon bod y gwaith wedi'i gwblhau, a dylai'r APC gadarnhau i mi ei fod wedi bod, a darparu tystiolaeth ddogfennol/ffotograffaidd briodol o hyn.

f) O fewn **4 mis** i gyhoeddi’r adroddiad, cynnal adolygiad o sut yr ymdriniwyd â chwyn Mr N a’i gamau gweithredu dilynol i nodi gwersi y gellir eu dysgu, gyda'r bwriad o sicrhau na fydd gwallau ac oedi o'r fath yn digwydd eto yn y dyfodol. Dylai sicrhau bod digon o oruchwyliaeth i sicrhau y cydymffurfir ag unrhyw argymhellion a wneir yn y dyfodol.

Cytunodd yr APC i weithredu’r argymhellion.

## Fy awdurdodaeth

1. O dan Adran 6 o'r Ddeddf, gallaf gymryd unrhyw gamau yr wyf yn ystyried iddynt fod yn briodol i ddatrys cwyn fel dewis arall yn hytrach nag ymchwilio iddi.  Gall hyn gynnwys cytuno â chorff cyhoeddus y bydd yn cymryd camau penodol o fewn amserlen benodol.  Lle nad wyf yn fodlon bod y corff perthnasol wedi cyflawni'r camau gweithredu y cytunodd yn benodol i ymgymryd â nhw o fewn yr amser a bennwyd, gallaf gyhoeddi adroddiad arbennig a gwneud argymhellion pellach i union anghyfiawnder i'r unigolyn a wnaeth y gŵyn a hefyd i atal anghyfiawnder tebyg rhag cael ei achosi i unrhyw berson yn y dyfodol.

## Y Cefndir

**Cwyn Gyntaf Mr N**

2. Mae Mr N a'i wraig yn berchen ar eiddo, y mae mynediad iddo dros drac heb ei wneud sy'n gysylltiedig â ffordd a gynhelir gan yr awdurdod lleol; mae'r trac yn rhedeg yn rhannol dros dir comin cofrestredig.  Yn **2011/2012** bu trafodaethau rhwng Mr N ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ("yr APC") ynghylch cyflwr y trac a dŵr a ddaw o dir yr APC i'r briffordd gyhoeddus.  Cododd anghydfod pellach pan adeiladodd Mr N ffens (a honnwyd gan yr APC ei fod ar dir comin) i amddiffyn ffos y cytunodd i'w hagor ar hyd ffin ei dir i gyd-fynd â'r gwaith draenio y cytunodd yr APC i'w wneud.

3. Cwynodd Mr N i'r APC ym mis Mai **2015**.  Ymchwiliodd Swyddog Monitro'r APC ar y pryd i'r gŵyn ac, ar ôl sawl drafft o'i adroddiad ("adroddiad y Swyddog Monitro"), anfonwyd y fersiwn derfynol at Mr N ar, neu thua, 1 Hydref **2018.**  Canfu adroddiad y Swyddog Monitro y bu "camweinyddu yn y modd yr ymdriniodd [yr APC] â digwyddiadau 2012" a chyfeiriodd at ddryswch, diffyg cyfathrebu mewnol ac ymdeimlad cyffredinol o'i weld fel pwnc difater.  Gwnaeth nifer o argymhellion, gan gynnwys y dylai'r APC wneud gwaith o ymdrin â chyflwr y trac a gwneud cais i Lywodraeth Cymru i reoleiddio ei achos o dorri rheoliadau ei hun ynghylch tir comin.  Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd, derbyniodd yr APC ganfyddiadau adroddiad y Swyddog Monitro a chymeradwyo camau i:

- Rheoleiddio/tynnu ffensys.

- Ail-leoli grid gwartheg.

- Ymgymryd â gwelliannau i arwyneb y trac, ac wedi hynny hysbysu'r Gymdeithas Porwyr leol mai eu cyfrifoldeb nhw fyddai cynnal a chadw yn y dyfodol.

Roedd yr APC wedi gosod y ffensys a'r grid gwartheg flynyddoedd ynghynt.

4. Cwynodd Mr N i'm rhagflaenydd Ombwdsmon ("yr Ombwdsmon") ym mis Ionawr **2019,** yn rhannol am yr oedi yn ymateb yr APC i'w gŵyn, a'r camau a gymerwyd gan yr APC i roi argymhellion adroddiad y Swyddog Monitro ar waith.

5. Cyhoeddodd yr Ombwdsmon adroddiad ar ei ymchwiliad i gŵyn Mr N ar 16 Medi ("adroddiad yr Ombwdsmon"). Cadarnhaodd gŵyn Mr N. Nododd yr Ombwdsmon esboniad yr APC fod angen caniatâd cynllunio ar gyfer peth o'r gwaith y cytunodd i'w wneud (y trac a'r grid gwartheg), a chaniatâd tir comin gan Lywodraeth Cymru (ffensio); nododd hefyd fod adroddiad a gyflwynwyd i gyfarfod yr APC ym mis Mehefin yn dangos bod cynnydd araf yn cael ei wneud o ran y cynllun gweithredu a gyflwynwyd i gyfarfod ym mis Tachwedd 2018. Anogodd yr APC i "wneud pob ymdrech i sicrhau bod y camau gweithredu yn cael eu cwblhau cyn gynted â y bo'n rhesymol ymarferol" ac argymhellodd y dylid cyflwyno adroddiadau diweddaru i gyfarfodydd yr APC bob 3-mis "fel y gall Aelodau fod yn dawel eu meddwl bod cynnydd yn cael ei wneud ar y mater mewn modd amserol". Argymhellodd hefyd fod Mr N yn cael ei ddiweddaru i'r un graddau. Cytunodd yr APC i weithredu'r argymhellion.

6. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad, cysylltodd Swyddog Ymchwilio'r Ombwdsmon â'r APC ar sawl achlysur i holi ynghylch cynnydd y gwaith. Ym mis Ebrill **2021** dywedodd yr APC fod y cais cynllunio i'w ystyried ar 6 Gorffennaf (yr APC yw'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer yr ardal, felly ef ei hun sy'n ystyried ceisiadau am ganiatâd cynllunio), ac y byddai'r cais i Lywodraeth Cymru a'r hysbysebion angenrheidiol "yn cael eu cyflwyno'n fuan".

**Ail Gŵyn Mr N**

7. Cwynodd Mr N eto i'r Ombwdsmon ym mis Medi **2021**. Dywedodd nad oedd y cais cynllunio wedi'i ganiatáu tan fis Gorffennaf, ac, er gwaethaf yr oedi, "nad oes dim wedi'i wneud".

8. Gofynnodd y Swyddog Ymchwilio i'r APC am ddiweddariad ar gynnydd y gwaith a oedd yn weddill. Eglurodd yr APC y bu'r cynllun ar gyfer y gwaith yn un dadleuol, gyda sawl parti lleol yn gwrthwynebu gwahanol elfennau o'r cynllun. Dywedodd hefyd fod yr APC wedi profi problemau â llywodraethu a gwneud penderfyniadau, a amlygwyd mewn Adroddiad Archwilio gan Lywodraeth Cymru. Manylodd ar y newidiadau a oedd wedi digwydd ym mhersonél yr APC dros y 2 flynedd flaenorol, ynghyd â'r amhariad a achosodd pandemig COVID-19. Dywedodd yr APC fod tendrau ar gyfer gosod wyneb y trac ac ail-leoli'r grid gwartheg i'w cyflwyno erbyn dechrau mis Rhagfyr, yn y gobaith y byddai gwaith yn cychwyn yn gynnar yn y flwyddyn newydd; dywedodd fod y cais tir comin (ar gyfer y ffensio) yn nwylo Llywodraeth Cymru, ac ni allai wneud sylw ar yr amserlen ar gyfer canlyniad y cais. Ym mis Ionawr **2022**, dywedodd yr APC wrth yr Ombwdsmon fod y cais tir comin yn nwylo Llywodraeth Cymru o hyd, ond ei fod wedi cyfarwyddo cwmni i wneud y gwaith arall, a fyddai'n dechrau "yn fuan iawn".

9. Yn wyneb y wybodaeth a ddarparwyd gan yr APC, cysylltodd y Swyddog Ymchwilio â'r APC i gynnig setliad i gŵyn Mr N. Cytunodd yr APC i'r canlynol:

- Y byddai'n cwblhau'r gwaith a oedd wedi'i gynnwys yn y tendr (adeiladu'r trac ac ail-leoli'r grid gwartheg) erbyn diwedd mis Mawrth 2022.

- Y byddai'n cwblhau'r ffensio (sy'n destun cais i Lywodraeth Cymru) o fewn 3 mis i Lywodraeth Cymru roi ei chaniatâd ar gyfer y gwaith.

Setlwyd cwyn Mr N ar y sail hon ar 14 Chwefror.  Nododd y llythyr gan yr Ombwdsmon i'r APC mai'r "unig amod yw bod yr amserlenni hyn yn amodol ar y tywydd yn caniatáu ac ar yr amod nad oes unrhyw oedi gyda chyflenwi deunyddiau".

## Gweithredu'r Argymhellion/Setliad

10. Mae'r canlynol yn grynodeb o'r wybodaeth a ddarparwyd i'm swyddfa gan yr APC rhwng mis Mawrth a mis Awst 2022:

- 8 Mawrth: gwaith i ddechrau 21 Mawrth, dylai gymryd tua 2 wythnos i'w gwblhau.

- 24 Mawrth: gwaith i ddechrau dydd Llun [28 Mawrth].

- 6 Mai: gwaith yn mynd yn dda, ond yn aros am grid gwartheg (yn ôl y gofyn am un di-sŵn), oedi o 2-3 wythnos gyda'r cwmni gweithgynhyrchu.

- 31 Mai: y grid gwartheg yn annerbyniol i Gymdeithas leol, math gwahanol wedi'i archebu, os nad yw mewn stoc gall gymryd tua 3 wythnos i'w gael.

- 19 Gorffennaf: mae'r pibellau draenio a osodwyd wedi'u difrodi gan gerbydau trwm, deunyddiau newydd wedi'u harchebu, gwnaf ofyn i'r contractwr ddychwelyd pan fydd ar gael; trefnu cyfarfod gyda'r peiriannydd "i adolygu'r gwaith a thrafod lleoliad y grid gwartheg".

- 5 Awst: cyfarfod i'w gynnal 9 Awst i ddatrys problemau technegol a godwyd gan ffermwyr; gall contractwyr ddychwelyd o fewn tua 2 wythnos i ddatrys problemau.

11. Ar 25 Awst, cynhaliwyd cyfarfod rhwng fy Mhrif Swyddog Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau a'r Swyddog Ymchwilio, ynghyd â Swyddog Monitro'r APC, i drafod y sefyllfa.  Cytunwyd y bydda'r APC yn darparu gwybodaeth ynglŷn â'r materion canlynol erbyn 5 Medi:

- Diweddariad ynghylch pryd y byddai'r holl waith ar y safle (y grid gwartheg a'r trac) wedi'i gwblhau.

- Esboniad o'r broblem â'r grid gwartheg, a pham bod angen y gwaith pellach y dywedodd yr APC oedd ei angen.

- Diweddariad ar y caniatâd gan Lywodraeth Cymru, a manylion y camau a gymerwyd gan yr APC i fynd ar drywydd hyn.

- Y camau a gymerwyd gan yr APC ynghylch honiad a wnaed gan Mr N bod contractwyr wedi difrodi ei ffensys.

12. Ar 5 Medi darparodd yr APC ei ddiweddariad. Dywedodd fod y difrod i'r pibellau draenio bellach yn cael ei weld fel fandaliaeth "gan bobl sy'n bwriadu oedi, neu atal y prosiect"; eglurodd yr anawsterau a brofodd o ran lleoliad a chynllun y grid gwartheg, bod lleoliad newydd y grid gwartheg wedi'i setlo, ac y dylai gwaith ar y traciau a'r grid gwartheg ddechrau yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 5 Medi ac y dylid ei gwblhau o fewn 2 wythnos. Pan ofynnwyd am wybodaeth am yr eitemau a oedd yn weddill, dywedodd yr APC y byddai'r difrod i ffens Mr N yn cael ei wneud yn iawn ar ddiwedd y cyfnod adeiladu ffordd; dywedodd fod y cais tir comin yn cael ei drin gan asiantau, a chyfeiriodd at ofyn i Gymdeithas leol am gofnodion cyfarfod. Dywedodd hefyd ei fod yn mynd ar drywydd Cymdeithas arall fel rhan o'r broses [mae gan y ddwy Gymdeithas ddiddordeb yn y defnydd o dir comin].

13. Ar 13 Medi, gofynnodd y Swyddog Ymchwilio am eglurhad o'i dealltwriaeth o'r hyn a ddywedodd yr APC - bod y cais tir comin i'w weld yn cael ei oedi gan y Cymdeithasau y cyfeiriwyd atynt uchod ac nad oedd amserlen bendant ar gyfer cwblhau'r gwaith arall. Pan ofynnwyd iddo am ymateb i'r cais hwn ar 22 Medi, ymddiheurodd yr APC am anwybyddu'r mater ac addawodd y wybodaeth y diwrnod hwnnw. Erbyn 4 Hydref, nid oedd dim pellach wedi'i dderbyn gan y Swyddog Ymchwilio.

14. Cyfarfûm â Phrif Weithredwr yr APC ar 5 Hydref a mynegais fy mhryderon am y sefyllfa. Ar 7 Hydref derbyniais e-bost gan y Prif Weithredwr yn dweud wrthyf fod tarmac wedi'i osod ar hyd y trac cyfan (er nad oedd yn ddigon dwfn) a bod y grid gwartheg wedi'i osod; roedd y

ffens i'w chwblhau “dros yr ychydig wythnosau nesaf”, ac roedd swyddogion i gwrdd â'r contractwr ar y safle i adolygu'r mân broblemau. Roedd y gwaith i’w cwblhau erbyn diwedd mis Hydref, yn amodol ar unrhyw broblemau gyda'r contractwr neu dywydd garw.

15. Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad byr ar 19 Hydref. Roedd mân broblemau wedi’u cofnodi gan swyddogion yn ystod ymweliad safle ac roeddent i’w trafod â’r contractwr, ond nid oedd y gwaith ffensio wedi cychwyn; dywedodd y byddai’n anfon adroddiad manylach “unwaith y bydd ffotograffau a nodiadau’r ymweliad wedi’u llunio”. Ar ôl clywed dim byd pellach, anfonodd y Swyddog Ymchwilio e-bost at y Prif Weithredwr ar 3 Tachwedd yn gofyn am yr adroddiad manylach a addawyd. Cydnabu Cynorthwyydd Personol y Prif Weithredwr yr e-bost ar 8 Tachwedd yn nodi y byddai’r Prif Weithredwr mewn cysylltiad cyn gynted â phosibl. Ar 18 Tachwedd, anfonais e-bost at y Prif Weithredwr yn gofyn iddi roi sylw brys i’r mater.

16. Ar 24 Tachwedd, derbyniais e-bost gan y Prif Weithredwr. Ymddiheurodd am y rhwystredigaeth a’r anghyfleustra a achoswyd i Mr N a phobl leol eraill, ac am y ffaith nad oedd y cynllun wedi'i gwblhau. Dywedodd fod “cynnydd sylweddol” wedi’i wneud, ond bod “rhai elfennau i’w cwblhau o hyd”. Darparodd ddiweddariad a oedd yn dangos y canlynol:

- Roedd y trac wedi'i arwynebu, ac roedd rhestr mân broblemau i'w chytuno gyda chontractwr mewn cyfarfod a oedd ar fin digwydd.
- Roedd y grid gwartheg wedi’i osod, ond roedd mân broblemau.
- Am resymau technegol, byddai’n “rhaid ailadrodd” y cais am ganiatâd tir comin i Lywodraeth Cymru.

17. Ar 30 Tachwedd, anfonais e-bost at y Prif Weithredwr yn nodi fy mod yn bwriadu cyhoeddi adroddiad arbennig o dan a28 o Ddeddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, oherwydd methiant parhaus yr APC i gwrdd â therfynau amser cytunedig ac i weithredu’n llawn yr argymhellion y cytunwyd arnynt yn wreiddiol yn adroddiad yr Ombwdsmon ym mis Medi 2019 ac yn y setliad y cytunwyd arno ym mis Chwefror 2022.

18. Gofynnodd y Swyddog Ymchwilio am wybodaeth a diweddariadau terfynol, a ddarparwyd gan yr APC ar 1 Rhagfyr. Yn gryno:

- Roedd adroddiad o fân broblemau wedi'i lunio, a oedd yn cytuno i raddau helaeth â'r contractwyr; roedd yr APC i drafod â dylunydd y cynllun y materion hynny na chytunwyd arnynt (sef pa mor ddwfn y gosodwyd yr arwyneb tarmac, a'r arwyneb drylliedig a thyllog ei hun).

- Roedd contractwyr ffensio wedi'u ceisio, ond ni allent wneud y gwaith tan fis Ionawr ar y cynharaf; roedd yr APC yn archwilio opsiynau eraill.

- Roedd y cais am ganiatâd tir comin (a wnaed ym mis Medi 2021) wedi "dod i ben" ym mis Hydref 2022 ( yn ymddangosiadol oherwydd materion yn ymwneud a'r APC yn methu â chydymffurfio â'r gofynion ar gyfer ymgynghori a gosod hysbysiadau).

Ni ddarparwyd unrhyw amserlen gan yr APC ar gyfer cwblhau unrhyw waith y cytunwyd i'w wneud, naill ai yn dilyn adroddiad fy rhagflaenydd ym mis Medi 2019 neu'r setliad y cytunwyd arno ym mis Chwefror 2022.

## Sylwadau'r APC ar fersiwn drafft o'r adroddiad hwn

19. Cydnabu'r APC yr oedi sylweddol a ddigwyddodd. Dywedodd mai'r broblem fwyaf oedd bod y gwaith ffordd y tu hwnt i'r arbenigedd a chwmpas cyffredinol y gwaith a wneir fel arfer, a bod hyn wedi effeithio'n ddifrifol ar ei allu i gyflawni'r cynllun mewn modd amserol. Ymddiheurodd i Mr M am yr oedi, a derbyniodd yr argymhellion. Yn ogystal, dywedodd ei fod yn ailasesu sut yr oedd yn comisiynu gwasanaethau ac yn eu monitro, a'i fod yn tynhau ei weithdrefnau cwyno.

20. Dywedodd yr APC y byddai'r gwaith ffensio'n cael ei wneud "erbyn yr wythnos yn diweddu 29 Ionawr 2023", roedd y mân broblemau yn cael eu rheoli a gofynnwyd am gyngor allanol arbenigol i fynd i'r afael â'r materion a oedd yn weddill. Cadarnhaodd fod y cais am ganiatâd tir comin i Lywodraeth Cymru wedi'i wneud ar 1 Rhagfyr 2022.

## Sylwadau Mr N ar fersiwn drafft o'r adroddiad hwn

21. Dywedodd Mr N fod contractwyr yr APC wedi dinistrio ei ffens, eu bod wedi tynnu darn sylweddol o wal gerrig sychion hynafol ar ei dir, yn ogystal â thynnu nifer fawr o lwyni. Dywedodd eu bod wedi gwasgaru isbridd a siâl ar y glaswellt yno, oedd yn annhebygol o adfer yn ôl ef.

## Dadansoddiad a Chasgliadau

22. Rwyf wedi cynnwys cefndir yr adroddiad arbennig hwn uchod, fel y gellir deall yr oedi y byddaf yn cyfeirio ato yn yr adran hon yn ei gyd-destun.

23. Cwynodd Mr N am y tro cyntaf i'r APC ym mis Mai 2015. Cymerodd yr APC 3½ blynedd i ddod a'r gŵyn honno i ben, ac i dderbyn canfyddiadau ac argymhellion y Swyddog Monitro. Cyhoeddwyd adroddiad yr Ombwdsmon ym Mis Medi 2019, a oedd yn cynnwys argymhellion gyda'r bwriad o sicrhau bod yr APC yn cwblhau'r gwaith a oedd yn weddill cyn gynted â phosibl; cytunodd yr APC i weithredu'r argymhellion. Aeth y Swyddog Ymchwilio "ar drywydd" yr APC am gynnydd dros y 2 flynedd ddilynol, ond ni roddodd yr APC ganiatâd cynllunio ar gyfer peth o'r gwaith nes fis Gorffennaf 2021. Erbyn hynny, nid oedd y cais i Lywodraeth Cymru am ganiatâd i wneud gwaith ar dir comin hyd yn oed wedi'i wneud. Nid yw'r APC wedi darparu tystiolaeth bod aelodau'r APC wedi cael eu diweddaru'n ffurfiol mewn fforymau llywodraethu priodol fel yr oedd wedi cytuno i wneud.

24. Cwynodd Mr N eto i'm swyddfa ym mis Medi 2021. Yn dilyn ymholiadau pellach â'r APC am y cynnydd a wnaed tuag at gwblhau'r gwaith a oedd yn weddill, setlwyd cwyn Mr N ym mis Chwefror 2022 ar sail y cytundeb a wnaed gan yr APC i gwblhau'r gwaith ar y trac a'r grid gwartheg erbyn diwedd mis Mawrth; yn ogystal, roedd y ffens i'w chwblhau o fewn 3 mis i ganiatâd Llywodraeth Cymru.

25. Er gwaethaf nodion atgoffa rheolaidd gan fy Swyddog Ymchwilio, nid yw'r APC wedi cwblhau unrhyw elfen o'r gwaith y cytunodd yn ffurfiol arno â'm rhagflaenydd ar 2 achlysur. Nid yw ychwaith wedi gallu darparu amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith. Mae'r rhestr o fân broblemau o ran y gwaith y gwaith sydd wedi'i wneud yn hir ac nid yw wedi'i gytuno'n llwyr â chontractwyr. Mae'n rhaid i'r cais tir comin i Lywodraeth Cymru yn awr gael

ei wneud o’r newydd o ganlyniad i’r hyn sy’n ymddangos fel pe bai wedi bod yn gamweinyddu pellach yn sut yr ymdriniodd yr APC â’r cais hwn, ac rwyf yn amau y bydd yn awr yn cymryd misoedd lawer i'w penderfynu.

26. Rwy’n deall bod yr APC ar adegau wedi’i gael ei hun mewn sefyllfa anodd, gan geisio cydbwyso buddiannau Mr N a phartïon lleol eraill, gan gynnwys y Gymdeithas leol. Mae hefyd wedi bod â phroblemau llywodraethu mewnol i ddelio â nhw, sydd ar gofnod cyhoeddus, a sawl newid o ran personél allweddol, gan gynnwys y Prif Weithredwr. Yn ogystal, mae’r pandemig COVID-19 wedi effeithio’n fawr ar weithgareddau’r APC yn gyffredinol dros y 2 flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae'n ymddangos i mi y caniatawyd i'r sefyllfa fynd yn ddifater am lawer rhy hir, ac mae'n ymddangos nad oedd yr un swyddog yn cymryd rheolaeth gyffredinol i sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau o fewn amserlen resymol. Mae Mr N wedi bod yn aros ers dros 7 mlynedd i gamau gael eu cymryd i ddatrys ei gŵyn, ac mae dros 3 blynedd ers i’r APC gytuno am y tro cyntaf ar yr argymhellion yn adroddiad yr Ombwdsmon. Mae’n gwbl annerbyniol nad yw’r mater wedi’i gwblhau erbyn hyn.

27. Mae'n rhaid i mi fynegi fy siom ynghylch sut y mae’r APC wedi ymgysylltu â'r swyddfa hon. Er fy mod wedi bod yn amyneddgar o rai anawsterau sydd wedi codi a fu y tu allan i reolaeth yr APC, yn bennaf, mae wedi cymryd anogaeth gyson gan y Swyddog Ymchwilio i gael gwybodaeth ac nid yw addewidion i ddarparu gwybodaeth erbyn dyddiadau penodol bob amser wedi'u cadw. Rwy’n ystyried ei fod yn annerbyniol i gorff cyhoeddus fethu â chymryd camau buan ac effeithiol i sicrhau bod argymhellion y cytunwyd arnynt yn cael eu gweithredu, ac i fethu, i bob pwrpas, a gwireddu addewidion rhwymol i'm rhagflaenydd neu, yn fwy diweddar, i mi fy hun fel Ombwdsmon. Rwyf hefyd yn bryderus bod y ffordd y mae’r APC wedi trin y mater hwn a'r oedi a fu wedi cynyddu'r gost i bwrs y wlad o ran cwblhau'r gwaith cytunedig.

28. Mae’r adroddiad arbennig hwn yn adroddiad cyhoeddus, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan fy swyddfa. Rwy’n ymwybodol bod yr APC wedi profi problemau llywodraethu ers tro, sydd wedi bod yn destun mwy nag un adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol. Yn wyneb hyn, rwyf o’r farn ei bod yn briodol rhannu’r adroddiad hwn ag Archwilydd Cyffredinol Cymru, a

Gweinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru, y mae ei chyfrifoldebau'n cynnwys y Parciau Cenedlaethol.

29. Rwy'n gwneud yr argymhellion pellach canlynol i sicrhau bod llywodraethu da mewn perthynas â goruchwylio'r argymhellion sy'n weddill ar y gŵyn hon, ynghyd ag achosion yn y dyfodol pan fydd fy swyddfa yn gwneud argymhellion i'r APC.

## Argymhellion Pellach

30. Rwy'n **argymell**, o fewn 1 mis i gyhoeddi'r adroddiad, bod yr APC yn:

a) Anfon ymddiheuriad ysgrifenedig i Mr N gan y Prif Weithredwr am y ffordd y mae'r APC wedi ymdrin â'r mater hwn.

b) Talu swm o £1000 i Mr N i gydnabod yr amser a'r drafferth y mae wedi'i roi iddynt wrth fynd ar drywydd ei gŵyn.

31. Rwyf hefyd yn **argymell** bod yr APC yn cyflymu'r gwaith sydd wedi'i gynnwys yn y tendr (adeiladu'r trac ac ail-leoli'r grid gwartheg) fel mater o frys. Dylid cwblhau gwaith o'r fath cyn gynted â phosibl, ac erbyn **diwedd mis Mawrth 2023** fan bellaf.

32. At hynny, rwy'n **argymell** bod yr APC yn gwneud popeth o fewn ei allu i gyflymu penderfyniad Llywodraeth Cymru ar y cais am ganiatâd tir comin;dylai'r ffens gael ei chwblhau o fewn 3 mis i Lywodraeth Cymru roi caniatâd ar gyfer y gwaith.

33. Rwyf hefyd yn **argymell** bod yr adroddiad hwn yn cael ei adrodd yn ffurfiol i gyfarfod nesaf Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'r APC. Wedi hynny, dylai'r mater fod yn eitem sefydlog ar agenda'r Pwyllgor hwnnw hyd nes y bydd y Pwyllgor yn fodlon bod y gwaith wedi'i gwblhau, a dylai'r APC gadarnhau i mi ei fod wedi bod, a darparu tystiolaeth ddogfennol/ffotograffaidd briodol o hyn.

34. Rwyf hefyd yn **argymell** bod yr APC, o fewn **4 mis** i gyhoeddi'r adroddiad, yn cynnal adolygiad o sut yr ymdriniwyd â chwyn Mr N a'i gamau gweithredu dilynol i nodi gwersi y gellir eu dysgu, gyda'r bwriad o sicrhau na fydd gwallau ac oedi o'r fath yn digwydd eto yn y dyfodol. Dylai sicrhau bod digon o oruchwyliaeth i sicrhau y cydymffurfir ag unrhyw argymhellion a wneir yn y dyfodol.

35. Rwy'n falch o nodi bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn eu sylwadau ar y drafft o'r adroddiad hwn, wedi derbyn yr adroddiad a chytuno i weithredu'r argymhellion hyn.



**Michelle Morris** 30 Ionawr 2023
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus/Public Services Ombudsman

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn: 01656 641150
Ffacs: 01656 641199
E-bost: holwch@ombwdsmon.cymru
Dilynwch ni ar Twitter: @OmbudsmanWales